Teitl y Ddogfen:	**POLISI TRAWS PRIFYSGOL CAERDYDD**
Awdur(on) (enw, teitl swydd ac Adran)	Beth John / Swyddog Sicrwydd / Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu
Rhif y Fersiwn:	V2.0
Statws y Ddogfen:	
Dyddiad Cymeradwyo:	
Cymeradwywyd Gan:	
Dyddiad Dod i Rym:	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	
Y Fersiwn a Ddisodlwyd:	V1.0 Polisi ac Arweiniad ar gyfer Cefnogi Myfyrwyr a Staff Traws

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	**Dyddiad**	**Awdur/Ymgynghorwyr**	**Nodiadau ar Ddiwygiadau**
V1.0	2013	GOVRN	Diweddarwyd yn 2016 – manylion cyswllt wedi newid
V2.0	2018	DOSPG	Terminoleg wedi'i diweddaru; yn cynnwys pwyntiau cyswllt unigol ar gyfer staff a myfyrwyr; proses wedi'i diweddaru ynghylch newid enw a chofnodion.

Prifysgol Caerdydd

Polisi Traws

Mawrth 2018

Fersiwn 2.0

Os oes angen i chi neu unrhyw un arall gael y ddogfen hon mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Uned Gydraddoldeb drwy ffonio 02920 870230, neu ebostiwch morganca5@caerdydd.ac.uk.

Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu

Prifysgol Caerdydd

CYNNWYS

1	Datganiad Polisi	4
2	Amcanion y Polisi	4
3	Cyfrinachedd	6
4	Trawsnewid yn y Brifysgol	6
5	Unigolion Anneuaidd, Dirywedd, Hyblyg o ran Rhywedd a Rhyngrywiol	8
6	Arweiniad a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer Myfyrwyr a Staff	8
7	Atodiadau	24

1 Datganiad Polisi

1.1 Mae Prifysgol Caerdydd yn dathlu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth cymuned y Brifysgol, gan gynnwys ei staff a'i myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn ymroi i drin pob gweithiwr a myfyriwr gydag urddas a pharch, ac mae'n ymdrechu i ddarparu amgylchedd dysgu a gweithio cadarnhaol lle na cheir unrhyw wahaniaethu, aflonyddwch neu erledigaeth.

1.2 Ni fydd Prifysgol Caerdydd yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant o rywedd. Pan mae'r polisi hwn yn cyfeirio at 'bobl traws', mae hynny'n cyfeirio at ystod eang o bobl nad yw eu hunaniaeth o ran rhywedd yn cael ei fynegi mewn ffyrdd a gysylltir yn nodweddiadol â'r rhyw a neilltuwyd iddynt ar adeg eu geni. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â hunaniaeth anneuaidd, dirywedd neu hyblyg o ran rhywedd, ac unigolion y mae'n bosibl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn drawsrywiol ond yr effeithir arnynt gan faterion y mae'r polisi hwn yn eu cwmpasu. Er nad yw'n hunaniaeth o ran rhywedd, mae'r Brifysgol yn cynnig cefnogaeth lawn i unigolion rhyngrywiol, sydd hefyd wedi'u gwarchod o dan y polisi hwn.

1.3 Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gynnig amgylchedd cefnogol ar gyfer staff a myfyrwyr traws. Mae hyn yn cynnwys gweithio i ddarparu adnoddau addas ar gyfer grwpiau myfyrwyr a staff traws, gan gynnwys defnyddio'r cyfleusterau newid a thoiledau o'u dewis. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod polisïau'r Brifysgol yn rhoi datganiadau clir ar aflonyddu a bwlio a gwneud yn siŵr bod proses glir a chadarnhaol ar gyfer datgelu statws traws, a diwygio cofnodion y Brifysgol.

1.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod datgelu statws traws rhywun heb ei ganiatâd/chaniatâd, boed yn aelod o staff neu'n fyfyriwr, yn fath o aflonyddu ac y gallai gael ei ystyried yn drosedd mewn nifer o gyd-destunau. Mae'r Brifysgol hefyd yn ystyried bod yr hyn a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei ymestyn i unigolion traws o'r foment y maent yn nodi eu bwriad i drawsnewid. Byddwn yn cynnig cefnogaeth yn unol â hynny, gan gynnwys gan gynnwys y staff neu'r myfyrwyr hynny sy'n ystyried eu bod yn anneuaidd, dirywedd neu'n hyblyg o ran rhywedd.

1.5 Mae Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn gosod cyfrifoldeb ar y Brifysgol i amddiffyn a hyrwyddo rhyddid i lefaru cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl ac o fewn y gyfraith i staff, myfyrwyr a siaradwyr gwadd[1]. Mae gan y Brifysgol weithdrefn sy'n gwneud yn siŵr nad yw ymarfer eich rhyddid i lefaru'n gyfystyr ag aflonyddu anghyfreithlon. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Sicrwydd: assuranceservices@caerdydd.ac.uk

2 Amcanion y Polisi

2.1 Datblygwyd y polisi hwn gyda chymorth myfyrwyr a staff traws, a'r gymuned traws yn fwy eang. Mae'n amlinellu ymrwymiadau'r Brifysgol i'r egwyddorion canlynol:

[1] https://intranet.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0006/966696/2017-Oct-Code-of-Practice-on-Freedom-of-Speech-Final.pdf

- Ni fydd myfyrwyr yn cael eu hatal rhag cael lle ar gyrsiau, symud ymlaen i gyrsiau eraill, na'u hatal rhag cael eu trin yn deg a chyfartal tra'n dilyn cyrsiau oherwydd eu hunaniaeth rhywedd neu am eu bod yn bwriadau trawsnewid, neu wedi gwneud hynny.

- Caiff ceisiadau i newid enw a rhyw ar gofnodion eu trin yn brydlon a bydd staff a myfyrwyr yn cael gwybod am unrhyw oblygiadau yn sgîl y newidiadau.

- Byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb i bobl traws yn agenda'r cwricwlwm cynhwysol, gan ddefnyddio adolygiadau o'r cwricwlwm i sicrhau nad yw cyrsiau yn dibynnu ar ragdybiaethau ystrydebol am bobl traws nac yn pwysleisio'r rhain, ac nad yw'r cwrs yn cynnwys deunydd trawsffobig.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod cyfrinachedd ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr traws yn unol â chanllawiau GDPR, heb ddatgelu gwybodaeth os nad yw'r unigolyn wedi cydsynio'n ddiamheuol i hynny ymlaen llaw.

- Ni chaiff staff eu heithrio rhag cyflogaeth neu ddyrchafiadau, neu gael eu hadleoli'n groes i'w dymuniadau o ganlyniad i'w hunaniaeth o ran rhywedd.

- Mae sarhau, aflonyddu neu fwlio trawsffobig (galw enwau/jôcs sy'n bychanu (ysgrifenedig neu ar lafar), ymddygiad annerbyniol neu annymunol, cwestiynau busneslyd) yn dramgwydd disgyblu difrifol a fydd yn destun gweithredu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol. Caiff unrhyw ddeunydd trawsffobig ei ddileu pryd bynnag y bo'n ymddangos ar y safle, yn unol â pholisi Urddas yn y Gwaith ac wrth Astudio'r Brifysgol, a'i Chôd Ymarfer ar Ryddid i Lefaru.

- Byddwn yn darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer staff a myfyrwyr sydd am i'w statws traws fod yn hysbys. Fodd bynnag, hawl yr unigolyn yw dewis a yw am fod yn agored am ei hunaniaeth o ran rhywedd, statws traws neu hanes traws.

- Byddwn yn cynnwys materion ynghylch hunaniaeth o ran rhywedd mewn hyfforddiant cydraddoldeb, ac ar ôl ymgynghori â staff a myfyrwyr traws a'r gymuned traws yn fwy eang, yn cynnwys hunaniaeth o ran rhywedd mewn arolygon mewnol ynghylch agweddau, ac wrth fonitro cwynion ynghylch aflonyddu.

- Wrth ddarparu llety ar gyfer myfyrwyr, os bydd myfyrwyr traws yn codi unrhyw bryderon neu broblemau, bydd yr Is-adran Preswylfeydd yn ymdrin â'r rhain, mewn modd teg ac yn unol â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith cydraddoldeb.

- Bydd staff a myfyrwyr sy'n cael triniaethau meddygol a llawfeddygol sy'n gysylltiedig ag ailbennu rhywedd yn cael cymorth cadarnhaol i fodloni eu anghenion penodol yn ystod y cyfnod hwn.

3 Cyfrinachedd

3.1 Os bydd cydweithiwr neu fyfyriwr yn datgelu i chi ei fod/bod wedi trawsnewid / wrthi'n trawsnewid neu'n bwriadu neu'n ystyried trawsnewid, mae'n gyfrifoldeb ar yr holl staff a myfyrwyr i drin y wybodaeth hon yn gyfrinachol. Gellir cael arweiniad yn ddienw gan y Gwasanaeth Sicrwydd drwy ebostio assuranceservices@caerdydd.ac.uk. **Ni ddylid rhannu unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy yw rhywun gydag unrhyw unigolyn ar unrhyw adeg, heb i'r unigolyn gytuno'n ddiamheuol i hynny.**

3.2 Yn unol â'n cyfrifoldeb o dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 a deddfwriaeth gwarchod data berthnasol, caiff unrhyw beth y mae myfyriwr neu aelod o staff yn ei ddatgelu ei drin yn gwbl gyfrinachol.

3.3 Gofynnir am ganiatâd diamheuol yr unigolyn cyn i unrhyw wybodaeth am ei broses/phroses o drawsnewid neu fwriad i drawsnewid gael ei rhoi i unrhyw un, o fewn y Brifysgol neu'r tu allan iddi, ac esbonnir unrhyw oblygiadau yn sgîl peidio a rhoi caniatâd.

3.4 Mae gan Brifysgol Caerdydd oblygiadau i fonitro data cydraddoldeb staff a myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gasglu gwybodaeth yn ddienw, ac ni fyddwn yn casglu gwybodaeth am nifer y staff neu fyfyrwyr traws os oes unrhyw berygl y caiff unigolion eu hadnabod. Caiff unigolion ddewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon, ond mae datgelu'n ddienw yn ein helpu i fonitro effaith unrhyw newidiadau mewn polisïau neu ymarfer.

4 Trawsnewid yn y Brifysgol

4.1 Mae'n bwysig nodi mai proses bersonol – nid proses feddygol – yw trawsnewid. Ni ddylid cymryd yn ganiataol ar unrhyw adeg bod unigolyn traws yn dioddef o ddysfforia rhywedd[2] neu ei fod/bod yn bwriadu cael unrhyw broses feddygol sy'n ymwneud â'i gyflwr/chyflwr. Yn ogystal, ni ddylid holi pobl draws am eu bwriad i fod yn destun y prosesau hynny.

4.2 Os ydych yn penderfynu trawsnewid pan ydych yn astudio neu'n gweithio yn y Brifysgol, nid oes rhaid i chi roi gwybod i unrhyw un am eich bwriad. Os byddwch yn penderfynu rhoi gwybod i'r Brifysgol, caiff cymorth parhaol ei gynnig gan gysylltiadau penodol; mae eu manylion wedi eu hamlinellu yn yr Arweiniad a'r Cwestiynau Cyffredin yn Adran 6.

4.3 Chi fydd yn arwain y broses o drawsnewid yn ei chyfanrwydd. Byddai'n ddefnyddiol trefnu cyfarfod rhyngoch chi a'r unigolyn a nodir gennych ar gyfer trafod pa gamau – os o gwbl – yr hoffech ei gael, a chael cyngor gennych ynglŷn â'r math o gymorth yr hoffech i ni ei ddarparu.

[2] https://www.nhs.uk/conditions/gender-dysphoria/

4.4 Gellir rhoi cynllun gweithredu ar waith i'ch tywys drwy'r broses o drawsnewid. Gallai hynny gynnwys:

- Amlinellu unrhyw gyfnodau posibl o absenoldeb
- Cyfeirio ar gyfer cael cefnogaeth
- Nodi pwy, o bosibl, sydd angen rhoi gwybod iddynt ac a ydych / sut ydych / pa bryd ydych am i hynny ddigwydd.
- Gwneud newidiadau i gofnodion
- Y dyddiad cyntaf, os yn berthnasol, pan fyddwch am ddefnyddio enw gwahanol, neu newid cofnodion.
- Cynllunio a yw hyfforddiant ymwybyddiaeth yn angenrheidiol ar gyfer cydweithwyr/myfyrwyr eraill.

4.5 Er mwyn cynnig y cymorth gorau posibl, gallai fod yn angenrheidiol i'r unigolyn yr ydych yn datgelu rhywbeth wrtho, gysylltu â'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, neu gysylltiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn yr adran Adnoddau Dynol, i ofyn am gyngor yn ddienw. Ni chaiff unrhyw wybodaeth fydd yn datgelu pwy ydych ei rhannu heb eich caniatâd diamheuol.

4.6 Gall fod yn ddefnyddiol cytuno ar y dyddiad cyntaf yr ydych yn bwriadu byw yn y rhywedd a gadarnhawyd gennych, er mwyn i'r Brifysgol allu trefnu newid cofnodion, enwau a materion eraill fydd yn cyd-fynd â'r dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn well gan rai pobl beidio â phennu dyddiad, a bydd y Brifysgol yn gwneud popeth posibl i wneud yn siŵr y gallwch fynegi eich rhywedd yn y modd, ac ar adeg sy'n gweithio i chi.

4.7 Mae gennych hawl gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gael mynediad at gyfleusterau – fel toiledau ac ystafelloedd newid – yn ôl yr hyn yr ystyriwch yw eich rhywedd. Gall hyn olygu eich bod, o bosibl, yn newid y cyfleusterau a ddefnyddiwch ar yr adeg pan fyddwch yn dechrau byw yn y rhywedd a gadarnhawyd gennych. Yn y pen draw, eich dewis chi yw defnyddio pa bynnag gyfleusterau yr ydych yn teimlo'n gyffyrddus yn eu defnyddio.

4.8 Ni ddylid gofyn i chi ddefnyddio cyfleusterau pobl anabl/cyfleusterau hygyrch fel opsiwn arall, ac ni ddisgwylir i chi ddefnyddio'r rhain.

4.9 Os ydych yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol rhoi gwybod i eraill yn eich Ysgol neu adran y byddwch yn defnyddio cyfleusterau gwahanol (er enghraifft, os ydych yn defnyddio ystafelloedd newid gyda myfyrwyr eraill yn gyson), gall eich Tiwtor Personol neu'ch Rheolwr Llinell eich helpu i roi gwybod am hynny o fewn eich Ysgol neu'ch adran. Dylech drafod y modd sy'n well gennych o ran rhannu'r wybodaeth hon â'ch Tiwtor Personol neu'ch Rheolwr Llinell. Gall yr unigolion hynny gysylltu ag assuranceservices@caerdydd.ac.uk i gael cyngor cyfrinachol ynghylch y broses hon. Nid oes angen gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r cyfleusterau sy'n well gennych, unwaith eich bod wedi dechrau byw yn y rhywedd a gadarnhawyd gennych.

4.10 Bydd holl adeiladau newydd y Brifysgol yn cynnwys toiledau niwtral o ran rhywedd ac mae'r Brifysgol yn gweithio i wneud yn siŵr bod gan yr adeiladau presennol gyfleusterau tebyg. Os oes diffyg cyfleusterau niwtral o ran rhywedd yn yr ardal lle'r ydych yn gweithio neu'n astudio, dylid hysbysu'r Gwasanaeth Sicrwydd am hynny drwy ebostio assuranceservices@caerdydd.ac.uk.

4.11 Bydd y Brifysgol yn cefnogi eich dewis o wisg yn gysylltiedig â'ch hunaniaeth o ran rhywedd.

5 Unigolion Anneuaidd, Dirywedd, Hyblyg o ran Rhywedd a Rhyngrywiol

Anneuaidd, dirywedd a hyblyg o ran rhywedd

5.1 Nid yw rhai pobl draws yn ystyried eu bod yn wryw neu'n fenyw. Maent yn ystyried bod y ddau rywedd yn gymwys ar eu cyfer a hynny, o bosibl, i raddau amrywiol, neu bydd ganddynt ymdeimlad hyblyg o'u hunaniaeth o ran rhywedd.

5.2 Mae'r **holl gefnogaeth** a amlinellwyd yn y polisi hwn yn gymwys i'r un graddau ar gyfer yr holl bobl traws, beth bynnag yw eu hunaniaeth o ran rhywedd.

5.3 Mae'r Brifysgol yn rhoi'r opsiwn o ddewis dynodwyr rhywedd heblaw 'gwryw' a 'benyw' ar gyfer staff a myfyrwyr.

5.4 Pan mae hunianiaeth o ran rhywedd unigolyn yn amrywio, ni fydd hynny'n effeithio ar allu'r unigolyn i gael gafael ar gyfleusterau a chymorth. Yr unigolyn sydd i benderfynu ar sail yr hyn y mae'r unigolyn yn ystyried yw ei hunaniaeth o ran rhywedd ar y pryd.

Rhyngrywiol

5.5 Nid yw bod yn rhyngrywiol yn hunaniaeth o ran rhywedd. Mae'n gyflwr corfforol sy'n effeithio ar hyd at 2% o'r boblogaeth, ac mae llawer o bobl yn anymwybodol eu bod yn rhyngrywiol.

5.6 Nid yw bod yn rhyngrywiol wedi'i warchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod yr anghenion a'r heriau penodol y gallai rhai pobl ryngrywiol eu hwynebu, a bydd yn cynnig yr holl gefnogaeth a diogelwch a amlinellir yn y polisi hwn i'r unigolion hynny.

6 Arweiniad a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer Myfyrwyr a Staff

6.1 Bydd y broses o newid rhywedd yn wahanol i bawb – does dim ffordd "gywir" neu "anghywir" a gallwch felly ddisgwyl cael eich holi am y modd yr hoffech i'r materion ynghylch hynny gael ei hystyried, a sut i ymdrin â nhw. Cymerwch amser i ystyried eich opsiynau, a rhowch wybod ar bob cyfrif os oes angen mwy o amser arnoch. Chi ddylai arwain y broses o drawsnewid tra eich bod yn y Brifysgol. Dylai'r canllawiau fod o ddefnydd hefyd os ydych wedi trawsnewid cyn ymuno â'r Brifysgol.

Mae'r Cwestiynau Cyffredin a'r arweiniad canlynol wedi'u gosod ynghyd fel man cychwyn, ond ni fyddant yn cwmpasu pob posibilrwydd.

6.2 Cwestiynau Cyffredin a Chanllawiau i Fyfyrwyr

Cwestiwn	
Ble gallaf gael cyngor neu gefnogaeth yn gyfrinachol ynghylch y broses o drawsnewid?	**Mewnol:** mailto:studentsupportcentre@cardiff.ac.uk **Y Ganolfan Cefnogi a Lles Myfyrwyr** • Jo Pinder +44 (0)29 2087 4844 PinderJ2@caerdydd.ac.uk • Gwasanaeth Iechyd a Lles +44 (0)29 2087 4844 wellbeingandcounselling@caerdydd.ac.uk **Preswylfeydd** • Tîm Bywyd Preswyl +44 (0)29 2087 4849 residences@caerdydd.ac.uk **Yn Undeb y Myfyrwyr:** • Cymdeithas LGBT+ • Swyddogion Etholedig LGBT+ (Cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr) • Cymdeithas LGBT+ : Pride Prifysgol Caerdydd **Allanol:** • Umbrella Cymru • Stonewall Cymru • TSMU (Trans Social Meet Up) – cyfarfodydd misol yng Nghaerdydd https://www.facebook.com/groups/tsmucardiff/ • Out and Proud Cardiff – ar gyfer y rheini sy'n 13-21 oed – cyfarfodydd wythnosol yng Nghaerdydd http://outandproudcardiff.co.uk/ neu info@outandproudcardiff.co.uk • LGBT Good Vibes – ar gyfer y rheini sy'n 11-25 oed – cyfarfodydd wythnosol yn Abertawe http://www.ymcaswansea.org.uk/young-people/youthgroups/lgbt-goodvibes/
Rwy'n gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Sut wyf yn cofrestru gyda'r enw	Mae Llywodraeth y DU bellach yn pennu'r math o ddulliau adnabod sy'n ofynnol ar fyfyrwyr i'w cyflwyno pan fyddant yn cofrestru. Pasbort, fisa neu dystysgrif geni, ynghyd â mathau eraill o ddulliau adnabod yw'r rhain.

a'r rhywedd a gadarnhawyd gennyf?	Gan na fydd pawb traws yn meddu ar dystysgrif geni sy'n adlewyrchu'r rhywedd a gadarnhawyd ganddynt, pan fydd angen cadarnhad swyddogol ar Brifysgol Caerdydd o hunaniaeth person, cewch yr opsiwn o ddarparu mwy nag un math o wybodaeth adnabod swyddogol, er enghraifft, trwydded yrru, pasbort, tystysgrif geni, Datganiad Statudol o newid enw drwy weithred newid enw. Os nad ydych yn meddu ar unrhyw ddull adnabod sy'n cynnwys yr enw sy'n well gennych neu'r rhywedd a gadarnhawyd gennych, byddwch yn dal i allu ymrestru gan ddefnyddio'r enw a'r dynodwr rhywedd o'ch dewis. Bydd rhai o'r dogfennau a restrir uchod yn angenrheidiol fel prawf o hunaniaeth gyfreithiol, ond bydd y Gofrestrfa yn cadw'n ddiogel mewn system sydd ar gael ar gyfer aelodau cymeradwy o staff y Gofrestrfa'n unig. Os ydych wedi newid eich enw'n gyfreithiol ac wedi diweddaru'ch dogfennau adnabod, gallwch gofrestru yn y modd arferol drwy ddefnyddio'r enw a'r dynodwr rhywedd sy'n gweddu orau ar gyfer y rhywedd a gadarnhawyd gennych (e.e. gwryw, benyw, arall).
Rwyf am drawsnewid neu yn y broses o drawsnewid – â phwy mae angen i mi gysylltu yn y Brifysgol?	Gallwch chi benderfynu ynghylch hynny. Fodd bynnag, awgrymir i chi gysylltu â Jo Pinder yn y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yn y lle cyntaf. Gall Jo roi cefnogaeth ac arweiniad i chi drwy gydol y broses o drawsnewid, a thu hwnt. Gallwch hefyd gysylltu â'ch Tiwtor Personol neu ddolen gyswllt Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant eich Ysgol. Mae rhestr o gysylltiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'w chael ar y rhyngrwyd. Gallech ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 2.
Wrth bwy byddant yn dweud?	Caiff y datgeliad ei drin yn gyfrinachol. Ni chaiff unrhyw un arall wybod hyd nes i chi fod yn rhan o drafodaeth am bwy sydd angen rhoi gwybod iddynt a phryd, ac wedi rhoi eich caniatâd. Os ydych am wneud newidiadau i'ch cofnod myfyriwr, mae'n debygol y bydd angen rhoi gwybod i nifer fechan o aelodau eraill o staff, gyda'ch caniatâd (gweler yr adrannau ynghylch enw a newid cofnod isod). **Meysydd i'w hystyried:**

	Mewn amgylchiadau eithriadol, os oes gan yr unigolyn y dywedwch wrtho bryderon am eich diogelwch, neu ddiogelwch eraill, mae'n ddyletswydd arno roi gwybod i'r cyrff perthnasol. Mewn achosion o'r fath, byddai datgelu yn ymwneud dim ond â phryderon ynghylch eich diogelwch neu ddiogelwch eraill a fyddai'n golygu unrhyw ddatgeliad neu dorri cyfrinachedd ynghylch eich hunaniaeth o ran rhywedd.
Pa opsiynau sydd ar gael o ran llety i fyfyrwyr?	Wrth gyflwyno cais ar-lein am le yn un o breswylfeydd y brifysgol, gofynnir i bawb sy'n gwneud cais nodi a fyddai'n well ganddynt fflatiau â phobl o'r un rhywedd, neu sy'n gymysg o ran rhywedd. Rydym yn gwneud ein gorau i fodloni'r ceisiadau hyn wrth ddyrannu ystafelloedd ond yn anffodus, ni ellir gwarantu hynny. Gall ymgeiswyr hefyd ffonio neu ebostio eu Rheolwr Preswylfeydd neu'r Swyddfa Preswylfeydd er mwyn datgelu/trafod unrhyw anghenion penodol y mae'n bosibl sydd ganddynt o ran llety. Ar ôl cael lle mewn llety, gallwch gysylltu â'r Rheolwr Preswylfeydd os ydych yn dymuno newid llety. Gall y Rheolwr Preswylfeydd esbonio'r broses o symud a thrafod yr opsiynau gwahanol sydd ar gael. Fodd bynnag, mae pob achos o symud yn amodol ar leoedd gwag.
Pa gofnodion sydd angen i mi eu hystyried?	Mae'r Brifysgol yn cadw cofnodion myfyrwyr mewn sawl lle, gan gynnwys yn y Gofrestrfa, yn eich Ysgol ac o fewn Gwasanaethau i Fyfyrwyr, ymysg lleoedd eraill. Gyda'ch caniatâd chi ac o'r dyddiad y cytunwyd gennych chi ymlaen, bydd y Brifysgol yn ymdrechu ble bynnag y bo'n bosibl i ddiwygio neu ddinistrio cofnodion sy'n cyfeirio at eich enw a/neu ddynodwr rhywedd blaenorol. Bydd unrhyw gofnodion na ellir eu diwygio yn cael eu cadw yn gyfrinachol; cewch wybod am y cofnodion hynny a phwy all gael gafael arnynt, os gall unrhyw un wneud hynny. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd hynny'n ei gwneud yn angenrheidiol i ni roi gwybod i nifer fechan o staff pwy ydych, er mai dim ond â'ch caniatâd diamheuol y gwneir hynny. Os ydych yn ymwybodol o gofnod a allai fodoli yn rhywle na fyddem yn gallu cael gafael arno fel arfer, e.e. gwasanaethau cwnsela, dylech ystyried a oes angen newid y cofnodion hynny ac a ydych yn gyffyrddus yn rhoi

	gwybod eu bod yn bodoli, er mwyn i gydweithwyr allu gwneud y newidiadau priodol.
Sut allaf newid fy enw o fewn y Brifysgol?	Nid oes angen i chi feddu ar Dystysgrif Cydnabod Rhywedd, Datganiad Statudol neu dystiolaeth o newid enw drwy weithred newid enw, er mwyn newid eich manylion ar y system rheoli gwybodaeth myfyrwyr . Bydd y Brifysgol yn newid eich enw ar gais, heb unrhyw ddogfennau neu brawf o newid enw'n gyfreithiol. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl ohebiaeth a gynhyrchir ar eich cyfer yn defnyddio'r enw sy'n well gennych ac a ddefnyddiwyd gennych er mwyn cofrestru. Er mwyn newid eich enw gyda'r Brifysgol, cysylltwch â'r naill aelod o staff canlynol neu'r llall yn y Gofrestrfa: **Pennaeth Gweithrediadau Myfyrwyr** Helen Cowley cowleyhm@caerdydd.ac.uk **Dirprwy Bennaeth y Gofrestrfa** Tracey Evans evanste@caerdydd.ac.uk Er nad yw'n ofynnol i chi newid eich enw'n gyfreithiol, bydd gwneud hynny'n eich galluogi i newid dogfennau adnabod, cyfrifon banc ac, o ran addysg, tystysgrifau gradd a chymwysterau. Bydd y Brifysgol yn gallu cyhoeddi tystysgrifau gradd yn eich enw cyfreithiol yn unig. Os byddwch yn newid yr enw a ddefnyddiwyd i'ch cofrestru yn y sefydliad, boed hynny'n gyfreithiol neu'n anffurfiol, mae'n bosibl y bydd angen i chi roi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, eich awdurdod lleol, unrhyw noddwr, a'ch banc, i wneud yn siŵr nad oes oedi wrth wneud taliadau. I gael cymorth gyda materion fel hyn, cysylltwch â'r tîm Cyngor ac Arian yn y Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr, fydd yn gallu eich helpu. Yn ystod y broses o drawsnewid, gallech ddefnyddio mwy nag un enw. Er enghraifft, efallai y byddwch yn cofrestru o dan yr enw sy'n well gennych tra bod eich banc yn parhau i ddefnyddio eich enw cyfreithiol. Nid yw hyn yn anghyfreithlon, ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion twyllodrus.

	Meysydd i'w hystyried: Dyma'r enw a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth gan gynnwys llythyrau a anfonir i'r cyfeiriad a rowch. Gallech ystyried a ydych yn hapus i'r enw hwn gael ei weld ar ohebiaeth a anfonir drwy'r post, ar ebost, ac ati, a diweddaru'r hyn sydd orau gennych o ran cyfeiriad. Dim ond yn eich enw cyfreithiol y gellir cyhoeddi tystysgrifau gradd. Er mwyn i'r Brifysgol gyhoeddi tystysgrif gradd yn yr enw sy'n well gennych, mae'n rhaid i chi roi prawf i'r Gofrestrfa eich bod wedi newid eich enw'n gyfreithiol heb fod yn hwyrach na 3 mis cyn eich dyddiad graddio. Os byddwch yn newid eich enw'n gyfreithiol ar ôl graddio o ganlyniad i drawsnewid, gallwch gysylltu'n uniongyrchol â Phennaeth Gweithrediadau Myfyrwyr i ofyn am gyhoeddi tystysgrifau newydd. Wrth wneud hynny, bydd yn ofynnol i chi anfon eich tystysgrifau gwreiddiol i'r Brifysgol. Os gwnaethoch raddio cyn 2005, cysylltwch â Chofrestrfa Prifysgol Cymru drwy ebostio Registryhelpdesk@wales.ac.uk. Ymgynghorwyd â Phrifysgol Cymru wrth ddatblygu'r polisi hwn ac mae camau priodol er mwyn sicrhau cyfrinachedd wedi'u rhoi ar waith. Mae goblygiadau gyda nifer o gyrff proffesiynol sy'n cefnogi cymwysterau cysylltiedig ag iechyd yn cael eu hymchwilio. Bydd angen i chi drafod gyda'ch Ysgol a'r Gofrestra a oes modd newid yr enw ar eich tystysgrif a dogfennau ffurfiol eraill sy'n cofnodi cyflawniad academaidd er mwyn eich galluogi i gofrestru i ymarfer. Bydd canllawiau pellach ar gael maes o law.
Alla i newid fy rhywedd neu fy nheitl?	Gallwch ddewis y dynodwr rhywedd neu'r teitl sy'n adlewyrchu'r rhywedd a gadarnhawyd gennych, boed hynny'n ddeuaidd neu'n anneuaidd. Mae yna opsiwn i ddefnyddio Mx yn hytrach na Miss, Mr, Mrs ar y systemau rheoli cofnodion myfyrwyr a staff. Gallwch hefyd ddewis y dynodwyr rhywedd 'gwryw', 'benyw' neu 'arall'.
Alla i newid fy ID a'm cyfeiriad ebost?	Gallwch newid eich cerdyn adnabod drwy ymweld â'r Swyddfa Diogelwch ar Barc y Plas, lle byddant yn gallu diweddaru eich enw, eich teitl a'ch llun. Gallwch wneud hyn gynifer o weithiau ag sy'n angenrheidiol os yw'r modd rydych yn ymddangos yn newid tra eich bod yn y Brifysgol.

	Gallwch newid eich cyfeiriad ebost hefyd os ydych yn newid eich enw. Nid yw'n ofynnol cael prawf cyfreithiol o newid enw. Yn y lle cyntaf, rhaid i chi gysylltu â'r Gofrestrfa er mwyn diweddaru eich enw a'ch rhywedd ar eich cofnod myfyriwr, cyn y gellir gwneud y newidiadau hynny. Bydd Pennaeth Gweithrediadau Myfyrwyr yn gallu eich helpu i weithio â chymheiriaid yn yr adrannau TG a'r Swyddfa Diogelwch i wneud yn siŵr bod y newidiadau'n cael eu gwneud mor rhwydd a chyfrinachol â phosibl.
Sut bydd absenoldebau ar gyfer apwyntiadau meddygol neu rai eraill yn cael eu trin?	Caiff absenoldebau ar gyfer apwyntiadau meddygol neu rai eraill – gan gynnwys absenoldebau ar gyfer cwnsela, ac ati – sy'n codi yn ystod gweithgareddau dysgu ar yr amserlen, eu trin yn ôl y Weithdrefn Presenoldeb, Gofynion Cynnydd Academaidd ac Absenoldeb. Byddai'n ddefnyddiol cael sgwrs â'ch Tiwtor Personol am unrhyw absenoldebau rydych yn disgwyl eu cymryd, er mwyn gallu cymryd camau fel bod hyn yn cael yr effaith leiaf bosibl ar eich astudiaethau. Lle bynnag y bo'n bosibl, fe'ch anogir i drefnu apwyntiadau meddygol y tu allan i'r amserau pan mae gennych weithgareddau dysgu ar yr amserlen, a rhoi gwybod i'ch Tiwtor Personol pan nad yw hynny'n bosibl. Nid oes rhaid i chi roi manylion penodol am yr apwyntiadau meddygol (fel y driniaeth a wneir) wrth roi gwybod i'r Brifysgol am apwyntiadau, ar yr amod y gallwch roi tystiolaeth o ddyddiadau apwyntiadau/llawdriniaeth fel y bo'n briodol. Mae'r tîm Achosion Myfyrwyr yn y Gofrestrfa ar gael i roi cyngor ar sut i reoli absenoldebau tymor hir o ganlyniad i drawsnewid, neu absenoldebau yn sgîl bod yn rhyngrywiol. Os yw'n debygol y caiff eich astudiaethau eu heffeithio dros gyfnod hir o amser, dylech gyfeirio at yr adran Cefnogi Myfyrwyr.
A yw hi'n iawn i mi wisgo mewn modd sy'n adlewyrchu fy hunaniaeth o ran rhywedd?	Bydd y Brifysgol yn cefnogi eich dewis o wisg yn gysylltiedig â'ch hunaniaeth o ran rhywedd.
Os wyf yn cael fy mwlio neu fy aflonyddu yn y Brifysgol o ganlyniad i drawsnewid neu	Dilynir y Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio wrth ymdrin â sarhau, aflonyddu neu fwlio trawsffobig (gan gynnwys galw enwau / jôcs sy'n bychanu / defnyddio

o achos fy hunaniaeth o ran rhywedd, â phwy allaf fi siarad a sut allaf fi hysbysu'n ffurfiol am hynny, os wyf am wneud?	rhagenwau neu enw anghywir yn gyson neu'n fwriadol), ac mae'r polisi'n datgan na fydd y Brifysgol yn goddef ymddygiad o'r fath. Bydd y Brifysgol yn ei drin fel achos disgyblu. Dylech roi gwybod i'ch Tiwtor Personol neu'r Gwasanaethau Myfyrwyr os ydych yn profi unrhyw fath o gam-drin trawffobig. Mae cymorth i'w gael hefyd gan y gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr neu'r Tîm Iechyd a Lles **Meysydd i'w hystyried:** Os ydych yn dioddef achosion o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu yn y gymuned leol, gall Gwasanaethau Myfyrwyr gynnig cyngor ac arweiniad ar sut i fynd â'ch cwyn ymhellach. Bydd y Brifysgol yn ceisio cynnig pa bynnag gymorth sy'n briodol o dan yr amgylchiadau hynny.
A fyddaf yn dal i allu ymgymryd â phrofiad gwaith, lleoliadau neu waith maes sy'n gysylltiedig â'm cwrs, neu a fydd unrhyw oblygiadau ar gyfer gwaith?	Mae'n bosibl y bydd gofynion galwedigaethol sy'n ymwneud â rhyw yn gymwys ar gyfer lleoliadau ym meysydd gofal iechyd a chymdeithasol, cwnsela a gwaith ieuenctid. Dylai'r Brifysgol ofyn i ddarparwyr lleoliadau a oes ganddynt ofynion galwedigaethol ac os felly, dylai'r gofynion hynny gael eu mynegi'n glir i bob myfyriwr. Os nad oes gennych GRC a thystysgrif geni newydd, a'ch bod ar gwrs sy'n ymwneud â lleoliadau lle mae gofynion galwedigaethol yn gymwys, mae'n hanfodol bod hynny'n cael ei drafod ar y cyfle cynharaf posibl. Diben cyfarfod o'r fath fydd pennu'r lleoliad mwyaf addas gyda'r myfyriwr, a bydd angen rhoi gwybod i'r myfyriwr os oes gan ddarparwr lleoliad ofynion galwedigaethol. Nid oes gofyn galwedigaethol lle gall cyflogwr bennu bod yn rhaid i unigolyn traws ymgymryd â'r swydd. Fodd bynnag, gallai fod gofyn galwedigaethol na all unigolyn o rywedd penodol ymgymryd â swydd benodol. Gallai hynny fod yn gymwys ar gyfer ambell swydd mewn sefydliadau crefyddol, ambell faes penodol yn y lluoedd arfog ac mewn gwasanaethau arbenigol megis cefnogaeth mewn argyfwng yn dilyn achos o dreisio. Mewn rhai amgylchiadau prin, mae modd gwahaniaethu'n gyfreithiol ar sail rhyw os oes Amod Galwedigaethol Dilys (*Genuine Occupational Qualification* – GOQ) ar gyfer gwneud hynny. Os bydd unigolyn traws wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd (*Gender Recognition*

	Certificate – GRC) lawn, bernir yn gyfreithiol bod yr unigolyn o'r rhywedd y gwnaeth newid iddo, o ran y rhan fwyaf o swyddi a lleoliadau cwrs lle mae GOQs yn gymwys. Fodd bynnag, ceir rhai amgylchiadau prin lle nad yw hynny'n gymwys. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/350-App1-LegalFrameworkExpanded.pdf Dylai myfyrwyr drafod gyda'u Tiwtor Personol neu Diwtor Academaidd perthnasol a oes Amod Galwedigaethol Dilys yn gymwys ar gyfer eu cwrs neu'r llwybr gyrfa sydd ganddynt mewn golwg. Os dyma'r achos, bydd angen trafod hynny gyda'r corff proffesiynol perthnasol.
A wyf yn gallu cael gwiriad DBS heb ddatgelu fy statws traws?	Mae gan bob un o'r asiantaethau sy'n gyfrifol am wirio cofnodion troseddol yn y DU brosesau penodol ar waith ar gyfer pobl draws, gan gynnwys y rheiny sydd â GRC llawn. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriadau yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddynt dîm ceisiadau sensitif: sensitive@dbs.gsi.gov.uk
Pa gyngor sydd ar gael ar gyfer astudio dramor yn rhan o'm rhaglen astudio?	Mae canllawiau ar gydraddoldeb neu amrywiaeth tra'n astudio dramor ar gael ar Fewnrwyd y Myfyrwyr drwy'r ddolen isod: https://intranet.cardiff.ac.uk/students/study/spend-time-abroad/stay-safe-abroad Byddai ystyriaeth wedi'i rhoi i'r modd y gallai astudio dramor effeithio ar fyfyrwyr traws, pan ddatblygwyd y cwrs, ond dylech godi unrhyw bryderon sydd gennych cyn gynted â phosibl gyda'ch Tiwtor Personol neu'r Gwasanaeth Sicrwydd drwy ebostio assuranceservices@caerdydd.ac.uk
Rwy'n fyfyriwr rhyngwladol traws. A oes unrhyw ofynion ychwanegol neu wahanol i mi?	Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â Phennaeth Gweithrediadau Myfyrwyr neu Ddirprwy Bennaeth y Gofrestrfa i drafod unrhyw oblygiadau o ran eich fisa. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddefnyddio'r enw sy'n well gennych a'r rhywedd a gadarnhawyd gennych i'r graddau mwyaf posibl yn unol â'ch gofynion fisa. Mae canllawiau gan y Swyddfa Gartref mai'r un fydd yr enw ar eich Hawlen Breswylio FIometrig (BRP) neu'ch Cerdyn Preswyl, â'r un sydd ar eich pasbort. Er mwyn newid yr enw ar eich pasbort, bydd angen prawf o newid enw'n gyfreithiol arnoch megis datganiad statudol neu dystiolaeth o weithred newid enw. Os ydych yn unigolyn

	traws o wlad nad yw'n cydnabod newidiadau i'ch enw neu'ch rhywedd ac nad ydych, felly, yn gallu newid eich enw ar eich pasbort, gallwch wneud cais am weithred newid enw fydd yn galluogi'r Swyddfa Gartref i gyhoeddi BRP yn yr enw sy'n well gennych. Gallwch ddefnyddio'r enw gwahanol ar eich BRP neu'ch Cerdyn Preswyl os nad yw eich mamwlad yn cydnabod newidiadau i'ch enw neu'ch rhywedd.
A oes angen Tystysgrif Cydnabod Rhywedd arnaf?	Nid oes angen Tystysgrif Cydnabod Rhywedd arnoch, ac ni ofynnir i chi gynhyrchu un ar unrhyw adeg. Bydd y Brifysgol yn cynnig yr un cymorth, arweiniad a sensitifrwydd i bob myfyriwr traws, p'un a oes ganddynt GRC neu beidio. Os oes gennych GRC, cewch eich cydnabod yn gyfreithiol yn ôl y rhywedd a gadarnhawyd gennych, gan gynnwys mewn llawer o achosion pan mae Amod Galwedigaethol Dilys yn gymwys (gweler yr adran ar leoliadau i gael rhagor o wybodaeth ac eithriadau).
Beth am eirda?	Bydd y Brifysgol bob amser yn ymdrechu i ddarparu geirda yn yr enw a'r rhywedd a gadarnhawyd gennych, ac ni fydd yn datgelu eich statws traws i ddarpar gyflogwr neu sefydliad. Os oes gennych unrhyw bryderon, dylech drafod y rhain gyda'ch canolwr.

6.3 Cwestiynau Cyffredin a Chanllawiau i Staff

Gwneud cais am swyddi	Gall ymgeiswyr wneud cais am swyddi ym Mhrifysgol Caerdydd heb ddatgelu eu statws traws. Caiff unrhyw ddatgeliadau a wneir ar unrhyw adeg eu trin yn gwbl gyfrinachol, a chynigir cefnogaeth. Lle bo'n bosibl, dylid cymryd camau i wneud yn siŵr nad yw statws traws unigolyn yn cael ei ddatgelu, er enghraifft drwy wirio'r enwau a ddefnyddir mewn geirda cyn ei drosglwyddo i'r unigolyn sy'n gyfrifol am recriwtio, a gwneud yn siŵr bod dogfennau sy'n dangos rhyw cyfreithiol unigolyn yn cael eu gweld ar sail angen gwybod yn unig.

	Gan na fydd pob unigolyn traws yn meddu ar ddogfennau swyddogol sy'n adlewyrchu'r rhywedd sy'n well ganddynt, pan fydd angen cadarnhad swyddogol ar Brifysgol Caerdydd o hunaniaeth unigolyn, bydd modd i chi ddarparu mwy nag un math o wybodaeth adnabod swyddogol, er enghraifft, trwydded yrru, pasbort, tystysgrif geni, Datganiad Statudol o newid enw drwy Weithred Newid Enw. Os ydych am ddatgelu eich statws traws yn gyfrinachol yn ystod y broses o wneud cais, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â'r unigolyn yn yr adran Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyfweliad, na fydd yn ymwneud â'r panel cyfweld ei hun.
Rwyf am drawsnewid, neu yn y broses o wneud hynny – pwy sydd angen i mi gysylltu â nhw o fewn y Brifysgol?	P'un ai eich bod wedi ymuno â'r Brifysgol tra'n trawsnewid neu wrthi'n trawsnewid tra'n aelod o staff, rydym yn gweithio gyda chi i wneud yn siŵr bod y cymorth priodol yn cael ei bennu ac mai chi sy'n cymryd yr awenau o ran amseru'r penderfyniadau. Pwy bynnag y byddwch yn rhoi gwybod iddynt yn y lle cyntaf, caiff y datgeliad ei drin yn gyfrinachol. Ni chaiff unrhyw un arall wybod hyd nes eu bod wedi trafod gyda chi pwy ydych yn dymuno rhoi gwybod iddynt, a oes angen i unrhyw un gael gwybod ac os felly, pa bryd. Mae'n bosibl y byddwch am roi gwybod i gydweithwyr, myfyrwyr neu reolwyr am eich penderfyniad. Efallai y byddwch am drafod hynny gyda'ch cyswllt cymorth allweddol yn y Brifysgol, ac ystyried newid enw a defnydd o ragenwau hefyd. Gallwch chi neu'r Brifysgol arwain y broses hon, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n well gennych. Gall y cydweithwyr canlynol gynnig cymorth a chyngor os ydych yn penderfynu trawsnewid ac, o ganlyniad, mae'n bosibl y byddwch am siarad â nhw yn y lle cyntaf. • **Eich Partner Busnes Adnoddau Dynol** Mae rhestr o Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol ar y fewnrwyd: https://intranet.cardiff.ac.uk/staff/your-employment/local-hr-representatives • **Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr adran Adnoddau Dynol** Karen Cooke cookek1@caerdydd.ac.uk

	• **Gwasanaeth Sicrwydd yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu** assuranceservices@caerdydd.ac.uk (Sylwer bod gan bob aelod staff yn y Gwasanaeth Sicrwydd fynediad i'r mewnflwch hwn) • **Eich Rheolwr Llinell** Gallwch hefyd gysylltu â'r rhwydwaith LGBT+ i staff ac ôl-raddedigion – Enfys – i gael cymorth a chyngor cyfrinachol ynghylch trawsnewid. Mae'n bosibl y byddai'n well gennych gysylltu'n ysgrifenedig â'r cydweithwyr hyn. Mae ffurflen ar gael yn Atodiad 2. Pwy bynnag y penderfynwch roi gwybod iddynt, mae gennym arweiniad ysgrifenedig ar eu cyfer ynghylch sut i'ch helpu ym mha bynnag ffordd fydd ei hangen arnoch.
Ble gallaf gael cyngor neu gefnogaeth yn gyfrinachol ynghylch y broses o drawsnewid?	**Mewnol:** Rhaglen Cymorth i Weithwyr Tîm Lles Staff Enfys – rhwydwaith staff a myfyrwyr ôl-raddedig **Allanol:** Stonewall Umbrella Cymru
Os oes rhywun yn fy mwlio neu'n aflonyddu arnaf o ganlyniad i drawsnewid neu o achos fy hunaniaeth o ran rhywedd, â phwy allaf fi siarad a sut allaf fi hysbysu am hynny'n ffurfiol?	Dilynir y Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio wrth ymdrin â sarhau, aflonyddu neu fwlio trawsffobig (gan gynnwys galw enwau / jôcs sy'n bychanu / defnyddio rhagenwau neu enw anghywir yn gyson neu'n fwriadol), ac mae'r polisi'n datgan na fydd y Brifysgol yn goddef ymddygiad o'r fath. Bydd y Brifysgol yn ei drin fel achos disgyblu. Dylech roi gwybod am unrhyw achosion o gam-drin trawsffobig i unrhyw un o'r canlynol: Y Gwasanaeth Sicrwydd – assuranceservices@caerdydd.ac.uk Rheolwr Llinell Eich Partner Busnes Adnoddau Dynol Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr adran Adnoddau Dynol

	Enfys
Sut wyf yn newid fy enw a'm manylion adnabod er mwyn adlewyrchu fy newid enw a rhywedd?	Nid oes angen i chi feddu ar Dystysgrif Cydnabod Rhywedd, Datganiad Statudol neu dystiolaeth o newid enw drwy Weithred Newid Enw er mwyn newid eich enw gyda'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn newid eich enw ar gais, heb unrhyw ddogfennau neu brawf o newid enw'n gyfreithiol. Bydd y cyswllt y byddwch yn datgelu wrtho yn sgwrsio â chi am sut y bydd eich enw'n newid ar draws systemau'r Brifysgol. Er mwyn newid eich enw gyda'r Brifysgol, dylech gysylltu â'ch cyswllt cymorth allweddol fydd yn gallu eich helpu i drefnu'r broses hon, neu'ch Partner Busnes Adnoddau Dynol ar lefel Coleg neu Wasanaethau Proffesiynol. Fel arall, gallwch gysylltu â'r staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant canlynol yn yr adran Adnoddau Dynol: **Rheolwr Datblygiad Sefydliadol** Karen Cooke cookek1@caerdydd.ac.uk **Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** Julie Bugden bugdenja@caerdydd.ac.uk Yn ystod y broses o drawsnewid, gallech ddefnyddio mwy nag un enw. Er enghraifft, rydych yn defnyddio'r enw sy'n well gennych yn y gwaith tra bod eich banc yn parhau i ddefnyddio eich enw cyfreithiol. Nid yw hyn yn anghyfreithlon, ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion twyllodrus. Er nad yw'n ofynnol i chi newid eich enw'n gyfreithiol, bydd gwneud hynny'n eich galluogi i newid dogfennau adnabod, cyfrifon banc, ac ati. Gallwch wneud cais am gerdyn adnabod newydd sy'n dwyn yr enw sy'n well gennych pan fydd eich cofnod staff wedi'i ddiwygio, drwy gysylltu â'r Swyddfa Diogelwch. Gallwch hefyd gysylltu â'r adran TG i wneud cais am gyfeiriad ebost newydd. Fel arall, efallai bydd eich cyswllt cymorth allweddol yn y Brifysgol yn gallu gwneud hyn ar eich rhan i wneud yn siŵr bod pob cofnod yn cael ei ddiweddaru ar yr un pryd. **Meysydd i'w hystyried:**

	Dyma'r enw a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth gan gynnwys llythyrau a anfonir i'r cyfeiriad a rowch. Gallech ystyried a ydych yn hapus i'r enw hwn gael ei weld ar ohebiaeth a anfonir drwy'r post, ar ebost, ac ati, a diweddaru'r hyn sydd orau gennych o ran cyfeiriad.
Pa gofnodion eraill sydd angen i mi eu hystyried?	Bydd y Brifysgol yn cadw cofnodion eraill o'ch enw a'ch dynodwr rhywedd gan gynnwys: Cofnodion cyfarfodydd Gwahoddiadau calendr Proffil staff ar y fewnrwyd Cyhoeddiadau academaidd Deunydd a recordiwyd mewn darlithoedd P45 / P60[3] Gyda'ch caniatâd chi ac o'r dyddiad y cytunwyd arno gyda chi, bydd y Brifysgol yn ymdrechu ble bynnag y bo'n bosibl i ddiwygio neu ddinistrio cofnodion sy'n cyfeirio at eich enw a/neu ddynodwr rhywedd blaenorol. Bydd unrhyw gofnodion na ellir eu diwygio yn cael eu cadw yn gyfrinachol; cewch wybod am y cofnodion hynny a phwy all gael gafael arnynt, os gall unrhyw un wneud hynny. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd hynny'n ei gwneud yn angenrheidiol i ni roi gwybod i nifer fechan o staff pwy ydych, er mai dim ond â'ch caniatâd diamheuol y gwneir hynny.
Beth am fy mhensiwn a'm trethi?	Gan fod eich cofnod staff gwreiddiol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu eich enw newydd, ni ddylai fod unrhyw oblygiadau o ran trethi. Mae cymorth ynghylch pensiynau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1. Dylech gysylltu â'ch gweinyddwr pensiwn i drafod a fydd eich pensiwn yn newid yn sgîl y ffaith eich bod wedi trawsnewid.
Sut bydd absenoldebau ar gyfer apwyntiadau meddygol neu rai eraill yn cael eu trin?	Yn unol â pholisïau cyfredol ar gyfer trefnu amser ar gyfer unrhyw apwyntiad meddygol arall ar gyfer staff – gan gynnwys apwyntiadau ar gyfer cwnsela ac ati.

[3] Gellir dod o hyd i arweiniad gan CThEM ar sut i ddiweddaru eich enw a/neu'ch rhywedd ar eu cofnodion drwy'r ddolen isod. Sylwer, heb brawf cyfreithiol o newid rhywedd, mae'n bosibl y caiff dogfennau megis ffurflenni P45 a P60 eu hanfon o dan eich rhywedd cyfreithiol. Gallwch gysylltu ag Adran Arbennig D yn CThEM i gael cyngor ac arweiniad. Mae eu manylion cyswllt wedi'u cynnwys drwy'r ddolen isod:
https://www.gov.uk/tell-hmrc-change-of-details/gender-change

	Pan mae angen i chi fod yn absennol, dylech ddefnyddio polisi'r Brifysgol ar gyfer rheoli absenoldeb salwch. Gallai polisïau eraill e.e. polisïau absenoldeb/gweithio hyblyg a chydbwysedd bywyd/gwaith, fod yn berthnasol hefyd. Dylai rheolwyr geisio bod mor hyblyg â phosibl i ganiatáu ceisiadau rhesymol am absenoldeb neu newidiadau mewn patrymau gweithio o fewn anghenion y gwasanaeth a gallai fod yn ddefnyddiol ystyried amserlen waith ac apwyntiadau meddygol ar y cyd.
A fydd unrhyw oblygiadau ar gyfer gwaith?	**Amodau Galwedigaethol Dilys:** Mewn rhai amgylchiadau prin, mae modd gwahaniaethu'n gyfreithiol ar sail rhyw os oes Amod Galwedigaethol Dilys (*Genuine Occupational Qualification* – GOQ) ar gyfer gwneud hynny. Os bydd unigolyn traws wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd (*Gender Recognition Certificate* – GRC) lawn, bernir yn gyfreithiol bod yr unigolyn o'r rhywedd y gwnaeth newid iddo, o ran y rhan fwyaf o swyddi a lleoliadau cwrs lle mae GOQs yn gymwys. Fodd bynnag, ceir rhai amgylchiadau prin lle nad yw hynny'n gymwys. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/350-App1-LegalFrameworkExpanded.pdf Os ydych yn ansicr, dylech drafod â'ch rheolwr llinell a oes GOQ sy'n gysylltiedig â'ch gwaith. **Gwirio Cofnodion Troseddol** Mae gan bob un o'r asiantaethau sy'n gyfrifol am wirio cofnodion troseddol yn y DU brosesau penodol ar waith ar gyfer pobl draws, gan gynnwys y rheiny sydd â GRC llawn. Caiff yr unigolyn o dan sylw ffurflen ar gyfer gwirio cofnod troseddol i'w chwblhau gan gyflogwyr a darparwyr lleoliadau. Cyn bod cyflogwr neu ddarparwr lleoliadau yn anfon cais, bydd angen i bobl traws gysylltu â'r sefydliad perthnasol a'r cyswllt fydd yn eu tywys drwy'r broses, olrhain y cais a chynnal cyfrinachedd. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cynnal gwiriadau yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddynt dîm ceisiadau sensitif: sensitive@dbs.gsi.gov.uk **Cyhoeddiadau Academaidd:** Caiff cyhoeddiadau academaidd eu cynnal gan y cyhoeddwr ac ni all y Brifysgol wneud y newidiadau hynny ar ran staff. Bydd y Brifysgol yn darparu cymorth ac arweiniad wrth gysylltu â cyhoeddwyr.

	Adleoli a Rôl: Y tu hwnt i Amodau Galwedigaethol Dilys, ni ddylai'r ffaith eich bod yn unigolyn traws, neu yn y broses o drawsnewid yn y gwaith, gael unrhyw effaith o gwbl ar ddisgrifiad eich swydd, neu'r cymorth a roddir i chi wrth ymgymryd â'ch swydd. Fodd bynnag, gallai fod yn bosibl addasu elfennau o'ch disgrifiad swydd yn ystod y broses o drawsnewid, os ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gwneud hynny. Bydd y Brifysgol yn gwneud popeth sy'n bosibl i wneud yn siŵr y cewch eich cefnogi wrth barhau yn eich swydd, ond os ydych am archwilio'r opsiynau hynny, awgrymir eich bod yn eu trafod gyda'ch rheolwr llinell.
Beth am eirda?	Bydd y Brifysgol bob amser yn ymdrechu i ddarparu geirda yn yr enw a'r rhywedd a gadarnhawyd gennych, ac ni fydd yn datgelu eich statws traws i ddarpar gyflogwr neu sefydliad. Os oes gennych unrhyw bryderon, dylech drafod y rhain gyda'ch canolwr.

Atodiad 1
Pensiynau [4]

Cymerwyd y wybodaeth ganlynol o'r canllaw ar gyfer gweithleoedd, sydd ar gael yn www.gov.uk.

Pensiynau'r Wladwriaeth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol
Dechreuodd y broses o gydraddoli oed pensiwn y wladwriaeth ar gyfer dynion a menywod, a'r terfyn oed ar gyfer talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogai ym mis Ebrill 2010, a bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn 2020 ar yr hwyraf. Nid yw newid rhywedd yn effeithio ar y terfynau oed hyn ar gyfer y rhai a gafodd eu geni ar ôl 5 Ebrill 1955, ond dylai'r rhai a gafodd eu geni yn gynharach ymgynghori â'u darparwr pensiwn neu Cyllid a Thollau EM i gael cyngor. O ran unrhyw fenywod traws sy'n parhau i fod mewn priodas o adeg cyn trawsnewid, mae'n bwysig bod darparwr eich pensiwn yn ymwybodol o'ch sefyllfa er mwyn gallu cyfrifo hawliau goroesi eich gwraig i'ch pensiwn, pe byddech yn marw o'i blaen. Gall darparwr eich pensiwn eich cynghori am yr amgylchiadau pan fydd angen iddynt wybod a ydych yn cael cydnabyddiaeth rhywedd ac am unrhyw newidiadau sy'n codi ers paratoi'r arweiniad hwn. Dylai sefydliadau drefnu enwau cyswllt i wneud yn siŵr y gall staff trawsrywiol gynnal cyfrinachedd o ran eu trefniadau pensiwn, ac ymholiadau ynghylch pensiynau.

Cyfrifoldeb aelodau unigol o MyCSP yw cysylltu â'u gweinyddwr pensiwn a rhoi gwybod iddynt eu bod yn trawsnewid o ran rhywedd, yr enw a'r teitl y maent yn dymuno cael eu hadnabod wrthynt, unrhyw newidiadau i'w statws priodasol neu bartneriaeth sifil a pha bryd y cafwyd cydnabyddiaeth rhywedd. Gall gweinyddwyr Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil fynd ati wedyn i gyfrifo pensiwn yr aelod yn gywir yn ogystal ag unrhyw hawl ddilynol i bensiwn goroeswr. Gall peidio â rhoi gwybod am wybodaeth o'r fath beri i gyfrifon pensiwn gael eu cyfrifo'n anghywir, a gallai beri pryder i aelodau neu'r sawl sy'n eu goroesi'n o ganlyniad i anghywirdebau yn eu data sy'n deillio o hynny.

[4] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/503663/Workplace_Guide_CSEP_revised_Final_V1_.pdf

Atodiad 2
Datgeliad

Addaswyd y ffurflen hon o ddogfen gan yr Uned Hyrwyddo Cydraddoldeb/*Advance HE* a gall staff sy'n dymuno datgelu'n ysgrifenedig ei defnyddio.

Annwyl

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i Brifysgol Caerdydd fy mod (ticiwch fel sy'n briodol):

□ eisoes wedi trawsnewid i fy rhywedd hunanddiffinedig, neu rywedd sydd â chydnabyddiaeth gyfreithiol

□ yn bwriadu trawsnewid i fy rhywedd hunanddiffinedig

Deallaf y bydd y wybodaeth yr wyf yn ei rhannu gyda chi yn cael ei defnyddio i wneud yn siŵr bod modd i mi fyw fy mywyd yn rhwydd o ddydd i ddydd yn fy rhywedd hunanddiffinedig neu rywedd sydd â chydnabyddiaeth gyfreithiol.

Deallaf hefyd y caiff y wybodaeth a rennir ei defnyddio, lle bo'n briodol, i wneud yn siŵr fy mod yn cael cymorth priodol fel ymgeisydd / myfyriwr / aelod o staff ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ticiwch:

□ Deallaf mai gyda fy nghaniatâd i yn unig y caiff y wybodaeth a rannaf gyda chi ei throsglwyddo i eraill.

□ Deallaf y byddwch yn cysylltu â mi ymhen wythnos lle bo hynny'n bosibl er mwyn trefnu cyfarfod cyn gynted â phosibl, fydd yn cynnig y cyfle i mi roi trosolwg o'm hamgylchiadau, trafod y newidiadau y gellir eu gwneud, y cymorth sydd ar gael ac unrhyw amserlenni.

Enw cyfreithiol:	Dynodwr myfyriwr/staff:

Enw Dewisol:	Rhagenwau:

Ebost:	Rhif cyswllt:

Llofnod:	Printiwch eich enw:

Dyddiad:

Atodiad 3
Cofnodion a dogfennau y gallai fod angen eu newid

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Cyfeiriwch at ECU/*Advance HE* i gael rhagor o wybodaeth.

Ebost - Pa gyfrifon ebost ac enwau defnyddiwr fydd angen eu newid, a pha bryd?
- Os mai hyblyg o rhan rhywedd yw hunaniaeth yr aelod o staff neu'r myfyriwr, a fydd angen creu cyfrifon ar wahân neu a yw'n bosibl cysylltu'r ddau?

Manylion Adnabod - Pa gardiau adnabod/bathodynau enw fydd angen eu newid a pha bryd?

Os mai hyblyg o ran rhywedd yw hunaniaeth yr aelod o'r staff neu'r myfyriwr, a fydd angen mwy nag un o'r mathau hyn o ddulliau adnabod ar yr unigolyn o dan sylw?

- Cerdyn adnabod Prifysgol neu Goleg
- Cerdyn llyfrgell
- Cerdyn undeb neu gymdeithas myfyrwyr
- Cerdyn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
- Cardiau clybiau a chymdeithasau
- Bathodynnau adnabod gwirfoddolwr/mentor
- Bathodyn aelodaeth o Undeb Llafur
- Cardiau aelodaeth cyrff proffesiynol/dysgedig
- Cerdyn aelodaeth canolfan ffitrwydd/campfa
- Cerdyn mynediad i lety
- Cerdyn prydau bwyd/arlwyo
- Cardiau adnabod ar gyfer lleoliad
- Cerdyn cynrychiolydd cwrs

Cofnodion a dogfennau

- Pa ddogfennau a chofnodion sydd angen eu disodli neu eu newid, a pha bryd? Os mai hyblyg o ran rhywedd yw hunaniaeth yr aelod o'r staff neu'r myfyriwr, a fydd angen mwy nag un o'r mathau hyn o ddulliau adnabod ar yr unigolyn o dan sylw?
  - E-bortffolio/cofnod o gyflawniadau
  - Bywgraffiadau academaidd
  - Ffotograffau

- Holl gofnodion a chronfeydd data myfyrwyr/staff, ffurflenni cofrestru a chofnodion cyllid
- Rhestrau cyrsiau, rhaglenni a modiwlau
- Cofnodion tiwtor personol
- Cofnodion lles/anabledd/cwnsela
- Cofnodion gwirfoddoli a mentora
- Posteri a manylion cyswllt cynrychiolydd cwrs
- Tystysgrifau, er enghraifft, eithrio o dalu treth y cyngor, presenoldeb mewn hyfforddiant, tystysgrifau gradd
- Cofnodion aelodaeth clybiau a chymdeithasau
- Y gyflogres (a manylion bancio)
- Buddion pensiwn, marwolaeth yn y swydd a buddion dibynyddion
- Polisïau yswiriant
- Arianwyr
- Cofnodion pwyllgorau, er enghraifft cofnodion byrddau astudio neu fyrddau academaidd

Sylwer: Efallai na fyddwch chi'n gallu newid cofnodion hanesyddol.
Dylech ystyried nodi bod rhywun yn trawsnewid yn ystod cyfarfodydd a gofnodir, os yw hynny'n briodol. Fel arall, dylech ystyried diolch i'r aelod presennol o'r pwyllgor am wasanaeth yr unigolyn, a chroesawu'r unigolyn fel aelod newydd o'r pwyllgor o dan yr enw newydd y mae'n ei ddefnyddio.

Gofynion galwedigaethol

- A oes unrhyw ofynion galwedigaethol yn ystod rhaglen astudio'r myfyriwr neu waith yr aelod o staff?
- Gallai rhai rolau fod yn fwy tebygol nag eraill o gynnwys gofynion galwedigaethol, er enghraifft rolau ym meysydd cwnsela, gofal cymdeithasol, y GIG, elusennau, ysgolion.
- A oes unrhyw ofynion galwedigaethol ar gyfer lleoliadau gwirfoddol neu ddysgu mewn gwaith?
- Gallai rhai rolau fod yn fwy tebygol nag eraill o gynnwys gofynion galwedigaethol, er enghraifft rolau yn ymwneud â rhoi llochesi i fenywod, canolfannau argyfwng yn dilyn achosion o dreisio.

Seremonïau

Yn ystod seremonïau gwobrwyo, pa enw gaiff ei ddefnyddio os nad yw unigolyn wedi newid ei enw'n ffurfiol neu heb roi gwybod i'r teulu mai traws yw ei rywedd?
Dylech ystyried y canlynol pa enw a ddefnyddir:

- ar y dystysgrif
- mewn seremoni neu raglenni dyfarnu
- pan gaiff yr enw ei gyhoeddi

Atodiad 4
Amodau Galwedigaethol Dilys

Mewn rhai amgylchiadau prin, mae modd gwahaniaethu'n gyfreithiol ar sail rhyw (rhywedd) os oes Amod Galwedigaethol Dilys (*Genuine Occupational Qualification* – GOQ) ar gyfer gwneud hynny. Os bydd unigolyn traws wedi cael tystysgrif cydnabod rhywedd lawn, bernir yn gyfreithiol bod yr unigolyn o'r rhywedd y gwnaeth drawsnewid iddo a rhaid trin yr unigolyn yn unol â'r rhywedd hwnnw ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi a lleoliadau cwrs lle y mae amodau galwedigaethol dilys yn gymwys. Fodd bynnag, ceir rhai amgylchiadau prin lle nad yw hynny'n gymwys.

Dyma enghreifftiau o seiliau ar gyfer cymhwyso amodau galwedigaethol dilys:
• Preifatrwydd a gwedduster
• Gwasanaethau addysgol neu les personol – e.e. angen i gwnselydd mewn canolfan argyfwng trais fod yn fenyw.

Gall amodau galwedigaethol dilys eraill fod yn gymwys:
• Os bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn cartref preifat fel rhan o'r swydd ac, oherwydd cyswllt personol agos yn yr amgylchiadau hyn, gall y cyflogwr ddangos gwrthwynebiad rhesymol.
• Os bydd deiliad y swydd yn rhannu llety fel rhan o'r swydd, ac nid yw'n rhesymol ar sail preifatrwydd na gwedduster i unigolyn wneud hynny gyda'r naill ryw neu'r llall wrth i'r unigolyn fynd drwy'r broses ailbennu rhywedd.
• Os yw'r gwaith yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddeiliad y swydd roi gwasanaethau personol i unigolion agored i niwed sy'n hybu eu lles, neu amgylchiadau personol tebyg ac, ym marn resymol y cyflogwr, ni all y gwasanaethau hynny gael eu darparu'n ddigonol gan unigolyn sy'n mynd trwy broses ailbennu rhywedd.

O dan yr holl amgylchiadau hyn, rhaid i'r cyflogwr/darparwr y lleoliad allu dangos eu bod wedi gweithredu'n rhesymol.

Fel cyflogwr, efallai y bydd angen i sefydliad addysg uwch gymhwyso amodau galwedigaethol dilys i rai swyddi yn y Gwasanaethau Myfyrwyr, er enghraifft cwnselwyr, neu i swyddi mewn neuaddau preswyl un rhyw. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn datgan yn glir bod rhaid i gyflogwr weithredu'n rhesymol wrth hawlio amod galwedigaethol dilys, er enghraifft trwy ystyried a allai rhywun arall gyflawni'r tasgau. Rhaid nodi'r amod galwedigaethol dilys ar ddechrau'r broses recriwtio a dethol, a rhaid ei ddatgan yn y pecyn cais. Yna, arfer gorau fyddai gofyn am gael gweld tystysgrif geni pob ymgeisydd ar y rhestr fer i gadarnhau eu rhyw cyfreithiol, yn hytrach na holi am statws traws; gallai hynny ynddo'i hun gael ei ystyried fel gwahaniaethu.

Os nad oes gan unigolyn traws Dystysgrif Cydnabod Rhywedd, neu os bydd yn trawsnewid pan fydd mewn swydd neu ar gwrs sy'n cynnwys lleoliadau ag amodau galwedigaethol dilys yn berthnasol iddynt, mae'n hanfodol bod y sefydliad a'r unigolyn yn cyfarfod i drafod y sefyllfa cyn gynted â phosibl, gyda chynrychiolwyr o undeb y myfyrwyr neu fasnach yr unigolyn yn bresennol, os bydd angen.

Os nad oes Tystysgrif Cydnabod Rhywedd gan unigolyn traws, mae'r gyfraith yn caniatáu i gyflogwyr atal yr unigolyn traws rhag ymgymryd â swydd y mae amod galwedigaethol dilys yn ymwneud â rhywedd yn berthnasol iddi, o dan amgylchiadau penodol iawn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i'r cyflogwr ddangos bod y cyfyngiad hwn yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu y dylai Sefydliadau Addysg Uwch gymryd yn ganiataol yn ddiofyn bod unigolyn traws yn gymwys ar gyfer swydd neu leoliad, a cheisio cyngor arbenigol mewn amgylchiadau prin pan mae gan y sefydliad farn i'r gwrthwyneb.

Atodiad 5
Rhestr o dermau (yn seiliedig ar wybodaeth yng nghanllawiau'r Uned Hyrwyddo Cydraddoldeb)

Mae terminoleg yn newid a gall defnydd ohono fod yn unigolyddol i raddau helaeth. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o dueddiadau mewn iaith oherwydd gallai aelod o staff neu fyfyriwr uniaethu â therm sy'n amhriodol yn nhyb rhai, gan gynnwys aelodau o'r un gymuned.

Rhywedd caffaeledig - Term cyfreithiol a ddefnyddir yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004. Mae'n cyfeirio at y rhywedd y mae unigolyn sy'n gwneud cais am dystysgrif Cydnabod Rhywedd wedi byw gydag ef am ddwy flynedd, ac yn bwriadu parhau i fyw felly.

Gellir defnyddio **Rhywedd wedi'i gadarnhau** pan mae unigolyn wedi trawsnewid ond wedi penderfynu peidio â gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.

Mae **Cisryweddol** yn seiliedig ar y rhagddodiad Lladin cis sy'n golygu 'ar yr ochr hon i'. Mae'r rhagddodiad Lladin traws (*trans*) yn golygu 'ar draws o' ac 'ar ochr arall i [rywbeth]' Mae dadl ynghylch y defnydd o cisryweddol o fewn y gymuned draws ac mae'n well gan rai pobl y term di-draws (*non-trans*) am fod hynny'n cyffredinoli'r defnydd o'r term traws.

Bydd **unigolyn â rôl ddeuol** o bryd i'w gilydd yn gwisgo dillad a/neu golur ac ategolion nad sy'n draddodiadol gysylltiedig â rhyw'r unigolyn pan gafodd ei eni. Yn gyffredinol, nid yw pobl â rôl ddeuol yn dymuno trawsnewid ac nid ydynt o reidrwydd yn profi dysfforia rhywedd. Mae'n well gan rai pobl y term

Rhywedd – Rhyw yw'r gwahaniaeth biolegol rhwng dynion a menywod, fodd bynnag, mae rhywedd yn cynnwys rolau mae cymdeithas wedi'u saernïo.

Hunaniaeth o ran rhywedd – y modd y mae unigolyn yn ystyried ei hunaniaeth;
Mynegiant rhywedd – y modd y mae unigolyn yn byw mewn cymdeithas ac yn rhyngweithio ag eraill. Nid yw rhywedd o reidrwydd yn cynrychioli dewis syml rhwng y naill neu'r llall: mae gan rai pobl hunaniaeth o ran rhywedd na ellir ei diffinio'n syml drwy ddefnyddio'r term menyw neu ddyn. Dylid nodi, ar hyn o bryd, at ddibenion cyfraith y DU, bod rhywedd yn ddeuaidd – rhaid i bobl fod naill ai'n ddyn neu'n fenyw.

Mae **dysfforia rhywedd** 'yn derm sy'n disgrifio'r anghysur neu'r trallod a berir gan yr anghysondeb rhwng hunaniaeth pobl o ran rhywedd (eu synnwyr seicolegol ohonynt eu hunain fel dynion neu fenywod) a'r rhyw a benodwyd iddynt ar adeg eu geni (gyda'r nodweddion rhywiol cynradd / eilaidd sy'n cyd-fynd â hynny, a/neu'r rôl gymdeithasol ddisgwyliedig o ran rhywedd)' (GIG, 2013). Nid yw dysfforia rhywedd yn cael ei ystyried yn fater iechyd meddwl ond gall dysfforia heb ei reoli neu'r stigma cymdeithasol all fynd law yn

llaw ag ef, ac unrhyw newidiadau y bydd pobl yn gwneud i'w mynegiant o ran rhywedd, arwain at 'lefelau clinigol sylweddol o drallod' (GIG, 2013). Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cymorth meddygol gan y GIG er mwyn trawsnewid, rhaid i unigolyn traws yn y DU gael diagnosis o ddysfforia rhywedd. Am nad oes gan bawb sy'n unigolyn traws ddysfforia rhywedd, mae hynny'n rhwystr sylweddol wrth geisio cael gafael ar gefnogaeth feddygol a gofynion y Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

Ailbennu rhywedd Y term cyfreithiol a ddefnyddir yn y Ddeddf Cydraddoldeb i ddisgrifio nodwedd warchodedig unrhyw un sy'n 'bwriadu mynd trwy broses, neu eisoes wedi bod yn destun proses (neu rhan o broses) at ddibenion ailbennu rhyw'r unigolyn drwy newid nodweddion ffisiolegol rhyw, neu nodweddion eraill' (Deddf Cydraddoldeb 2010). Hon yw'r nodwedd warchodedig sy'n gwarchod pobl draws rhag ddioddef achosion o wahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu ym maes cyflogaeth, addysg ac wrth ddefnyddio gwasanaethau. Yn bwysig, nid yw'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bobl traws fod yn destun goruchwyliaeth neu ymyraethau meddygol i gael eu gwarchod.

Caiff **Tystysgrifau Cydnabod Rhywedd** (GRC) eu darparu gan y panel cydnabod rhywedd o dan ofynion **Deddf Cydnabod Rhywedd 2004**. Caiff deiliaid GRC lawn gydnabyddiaeth cyfreithiol yn eu rhywedd caffaeledig at bob diben. Caiff GRC lawn ei rhoi i ymgeisydd os y gall argyhoeddi'r panel ei fod yn gallu bodloni'r holl feini prawf a amlinellir yn y Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Gall ymgeiswyr fod yn breswylwyr o'r DU neu o diriogaethau tramor cydnabyddedig sydd eisoes wedi caffael rhywedd cyfreithiol newydd. Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol bod ymgeiswyr dros 18 oed, bod ganddynt ddysfforia rhywedd neu eu bod wedi'i gael, eu bod wedi byw yn y rhywedd a gadarnhawyd ganddynt am ddwy flynedd cyn gwneud y cais, a'u bod yn bwriadu byw'n barhaol yn ôl eu statws rhywedd caffaeledig

Nid yw'n briodol gofyn i bobl traws am GRC ar unrhyw adeg ac ystyrir bod hynny'n anghyfreithlon am ei fod yn torri eu hawl i breifatrwydd. Pan fydd unigolyn wedi cael GRC, dim ond mewn achosion lle ceir eithriadau diamheuol yn y gyfraith y gellir datgelu ei hanes o rhan rhywedd:

Rhywedd Amrywiol – Term mwy niwtral na 'Dysfforia Rhywedd' pan na fydd sut mae unigolion yn edrych ar y tu allan yn cyd-fynd â'u hymdeimlad o'u hunaniaeth rhywedd yn fewnol neu'n ymwrthod â phrofiad a mynegiad rhywedd ystrydebol e.e. gwisgo neu ymddwyn mewn ffordd y mae pobl eraill yn amgyffred bod hynny y tu allan i normau rhywedd diwylliannol.

Rhyngrywiol – Term cyffredinol ar gyfer pobl a gafodd eu geni ag amrywiaeth o nodweddion rhyw, nad sy'n cyd-fynd bob amser â chanfyddiad cymdeithas o gyrff dynion neu fenywod. Nid yw bod yn rhyngrywiol yr un fath â hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Rhyw cyfreithiol – Caiff rhyw 'cyfreithiol' pobl ei bennu gan y rhyw sydd ar eu tystysgrif geni a'r hyn a gymerir yn ganiataol wrth yr enedigaeth yw bod eu statws o ran rhywedd (bachgen, merch) yn cyd-fynd. Ar gyfer sefydliadau addysg uwch (SAU) a cholegau, dim ond at ddibenion yswiriant a phensiwn ac o ran gofynion galwedigaethol mewn achosion prin y mae rhyw cyfreithiol unigolyn yn berthnasol.

Anneuaidd – Defnyddir anneuaidd i gyfeirio at bobl â hunaniaeth o ran rhywedd sydd rhwng neu y tu hwnt i ddau gategori 'dyn' a 'menyw', yn amrywio rhwng 'dyn' a 'menyw' neu sydd heb rywedd, naill ai'n barhaol neu weithiau.

Rhagenw – Rhagenw yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at rywun er enghraifft hi neu fe. Mae rhagenwau niwtral o ran rhywedd yn cynnwys (yn Saesneg):
they/them/their/themselves
che/chim/chis/chimself
E/Em/Eir/Eirs/Emself
Per(person)/pers/perself
Xe/ hir/ hirs/ hirself

Traws – Mae traws yn derm cynhwysol i bawb y mae eu mynegiant rhywedd y tu allan i'r normau rhywedd nodweddiadol. Gellir defnyddio'r term 'traws' ar gyfer pobl sy'n mynd trwy drawsnewid eu rhywedd, pobl sy'n arddel rhywedd sy'n wahanol i'r categori y rhoddwyd nhw ynddo adeg eu geni (p'un a ydynt yn penderfynu cael triniaeth feddygol neu beidio). Dylid defnyddio'r term hwn fel ansoddair yn unig.

Sylwer:
Mae cyfeiriadedd rhywiol yn fater ar wahân i hunaniaeth rhywedd. Gall pobl draws fod yn hoyw, lesbiaidd, deurywiol, syth/heterorywiol neu gallant ystyried bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol arall e.e. anrhywiol, panrywiol ac ati. Gall perthnasoedd rhywiol aros yr un fath yn ystod y broses drawsnewid, neu gallant newid.

Trawsnewid yw'r broses pan mae pobl yn newid eu rôl gymdeithasol er mwyn cyd-fynd â'u hunaniaeth o ran rhywedd. Mae enghreifftiau o drawsnewid yn cynnwys dweud wrth ffrindiau, teulu a chydweithwyr, newid enwau, gofyn i bobl ddefnyddio rhagenwau gwahanol, a newid y modd y caiff rhywedd ei fynegi. I rai pobl, gallai hynny olygu cymorth meddygol megis therapi hormonau a llawdriniaeth.

Mae **trawsffobia** yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r ofn, dicter, anoddefgarwch, drwgdeimlad ac anghysur y gallai rhai pobl feddu arnynt o ganlyniad i unigolyn arall sy'n unigolyn traws. Gall hyn arwain at wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth a throseddau casineb.

Unigolyn trawsrywiol – gall hwn fod yn derm sensitif a fydd yn sarhaus i rai, oherwydd bod 'trawsrywiol' yn parhau'n derm sydd wedi'i ddiffinio'n feddygol, sy'n ymddangos mewn llawlyfrau diagnostig, ac yn cael ei briodoli i bobl gan feddygon. Dylid defnyddio'r term hwn yn ofalus oherwydd sensitifrwydd y term. Er y gallai rhai pobl ystyried bod y term yn un sarhaus, gallai eraill ei ddefnyddio i ddisgrifio eu hunain.